Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA	City & Guilds	CCEA	Edexcel	OCR	CBAC

Hysbysiad i Ymgeiswyr
Ar gyfer arholiadau ysgrifenedig a gynhelir yn y cyfnod 1 Medi 2009 i 31 Awst 2010

Ysgrifennwyd yr hysbysiad hwn i'ch helpu. Dylech ei ddarllen yn ofalus a dilyn y cyfarwyddiadau. Os nad ydych yn deall unrhyw beth, yn enwedig pa gyfrifiannell i'w ddefnyddio ac ati, gofynnwch i'r athro/athrawes.

A	**Rheoliadau - gwnewch yn siŵr eich bod yn deall y rheolau**
1	Rhaid i chi gyrraedd pob arholiad mewn pryd. Efallai na fydd eich gwaith yn cael ei dderbyn os byddwch yn hwyr.
2	Peidiwch â gwneud unrhyw beth annheg nac anonest yn unrhyw ran o'r arholiad.
3	Os byddwch yn ceisio camymddwyn, neu dorri'r rheolau mewn unrhyw ffordd, gallwch gael eich diarddel o'ch pynciau i gyd.
4	Yr unig bethau y gallwch fynd gyda chi i'r ystafell arholiad yw'r deunyddiau ac offer sy'n cael eu caniatáu.
5	Peidiwch â mynd ag unrhyw ddeunyddiau nac offer diawdurdod i mewn i'r ystafell arholiad a allai roi mantais annheg i chi. Mae'r rhain yn cynnwys nodiadau, casys cyfrifiannell/taflenni cyfarwyddiadau, bagiau, teledu/stereo personol, offer digidol, ysgrifbinnau darllen, dyfeisiau cyfathrebu/storio electronig, **gan gynnwys ffôn symudol**, iPod, chwaraewyr MP3/4 neu unrhyw nwyddau eraill sydd â chyfleusterau testun/digidol. Rhaid i unrhyw gasys pensiliau sy'n cael eu cymryd i mewn i'r ystafell arholiad fod yn dryloyw. **Cofiwch:** Mae bod â deunydd diawdurdod yn eich meddiant yn torri'r rheolau hyd yn oed os nad ydych yn bwriadu ei ddefnyddio, a gallwch gael eich cosbi a'ch diarddel o bosib.
6	Peidiwch â defnyddio hylif/ysgrifbinnau neu dâp cywiro, aroleuwyr nac ysgrifbinnau gel lliw golau yn eich atebion.
7	Peidiwch â siarad na chyfathrebu fel arall ag ymgeiswyr eraill na thynnu eu sylw unwaith y bydd yr arholiad wedi dechrau.
8	Os bydd goruchwyliwr yn gadael i chi adael yr ystafell arholiadau heb oruchwyliaeth cyn diwedd yr arholiad, ni fyddwch yn cael dod yn ôl i mewn i'r ystafell.
9	Peidiwch â benthyg unrhyw beth gan ymgeisydd arall yn ystod yr arholiad.
B	**Gwybodaeth – Gwnewch yn siŵr eich bod yn mynychu eich arholiadau a'ch bod yn dod â'r hyn sydd ei angen arnoch**
1	Dylech wybod dyddiad ac amser pob un o'ch arholiadau.
2	Dylech gyrraedd o leiaf ddeng munud cyn dechrau pob arholiad.
3	Os byddwch yn cyrraedd yn hwyr ar gyfer arholiad, yna rhowch wybod i'r goruchwyliwr sy'n gyfrifol am yr arholiad.
4	Os byddwch yn cyrraedd fwy nag awr ar ôl amser dechrau cyhoeddedig yr arholiad, efallai na fyddwch yn cael sefyll yr arholiad hwnnw.
5	Ewch â'r ysgrifbinnau, pensiliau, dilewyr ac unrhyw offer arall sydd ei angen arnoch yn unig gyda chi i'r ystafell arholiad.
6	Rhaid i chi ysgrifennu mewn inc du. Gallwch ond defnyddio pensiliau neu inciau lliw ar gyfer diagramau, mapiau, siartiau ac ati oni nodir yn wahanol yn y cyfarwyddiadau ar flaen y papur cwestiynau.
C	**Cyfrifianellau, Geiriaduron a Gwirwyr Sillafu Cyfrifiadurol**
1	Cewch ddefnyddio cyfrifiannell, oni ddywedir yn wahanol wrthych.
2	Os byddwch yn defnyddio cyfrifiannell • gwnewch yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn; gwiriwch fod y batris yn gweithio'n iawn; • cliriwch unrhyw wybodaeth sydd wedi'i storio ynddo; • tynnwch unrhyw rannau megis casys, caeadau neu gloriau sydd â chyfarwyddiadau neu fformiwlâu argraffedig arnynt; • peidiwch â dod ag unrhyw gyfarwyddiadau gweithredu na rhaglenni parod i mewn i'r ystafell arholiad.
3	Peidiwch â defnyddio geiriadur na dyfais sillafu gyfrifiadurol oni ddywedir yn wahanol wrthych.
Ch	**Cyfarwyddiadau yn ystod yr arholiad**
1	Gwrandewch ar y goruchwyliwr a dilynwch ei gyfarwyddiadau bob amser.
2	Dywedwch wrth y goruchwyliwr ar unwaith: • os ydych yn credu nad yw'r papur cywir neu'r holl ddeunyddiau sydd wedi'u rhestru ar flaen y papur wedi'i roi i chi; • os nad yw'r papur yn gyflawn neu os yw'r print yn wael.
3	Darllenwch a dilynwch gyfarwyddiadau'r papur cwestiynau a/neu'r llyfryn ateb yn ofalus.
4	Ysgrifennwch y manylion angenrheidiol ar flaen y papur cwestiynau a/neu'r llyfryn ateb cyn dechrau'r arholiad.
5	Cofiwch ysgrifennu eich atebion yn y mannau priodol ar y llyfryn ateb.
6	Gwnewch eich gwaith bras ar y papur arholiad penodol yn unig. Tynnwch linell drwyddo a'i roi i mewn gyda'ch atebion.
D	**Cyngor a chymorth**
1	Ar ddiwrnod yr arholiad, os ydych yn teimlo'n sâl ac y bydd hynny neu unrhyw reswm arall yn debygol o effeithio ar eich gwaith, dywedwch wrth y goruchwyliwr.
2	Yn ystod yr arholiad, codwch eich llaw os ydych yn teimlo: • bod gennych broblem a ddim yn siŵr beth i'w wneud; • yn sâl; • bod eisiau rhagor o bapur arnoch.
3	Ni chewch ofyn am esboniad o'r cwestiynau ac ni chewch ateb felly.
DD	**Ar ddiwedd yr arholiad**
1	Os byddwch wedi defnyddio mwy nag un llyfryn ateb a/neu unrhyw bapur rhydd, rhaid eu rhoi yn y drefn gywir. Cofiwch eu clymu â'i gilydd gyda thagiau cyn i chi adael.
2	Peidiwch â gadael yr ystafell arholiad tan y bydd y goruchwyliwr yn dweud y cewch wneud hynny.
3	Peidiwch â chymryd unrhyw bapur ysgrifennu o'r ystafell arholiad (h.y. y papur arholiad, llyfrynnau ateb, p'un ai heb eu defnyddio ai peidio), unrhyw waith bras nac unrhyw ddeunydd arall a ddarparwyd ar gyfer arholiadau.

Bydd y goruchwyliwr yn dweud pa bryd y cewch adael yr ystafell arholiad.

Rhaid arddangos y poster hwn mewn man amlwg y tu allan i bob ystafell arholiad.

© 2009